The Electoral Commission

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amserlen a'r dyddiadau cau adrodd ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE

Diweddarwyd 28 Ebrill 2016

Cynnwys:

Cyfnod y refferendwm

Amserlenni'r refferendwm ar gyfer dynodi ac adrodd

CPE Ar-lein
EUR2

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:
Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio **'rhaid'** wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio **'dylai'** ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.
Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cynghori. Os nad ydych yn siŵr sut mae unrhyw rai o'r rheolau hyn yn gymwys i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau ymchwiliol a sancsiynau, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein nodau ac amcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement

2

Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Yr amserlenni a'r dyddiadau cau ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE i'w gynnal ar 23 Mehefin 2016

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- Cyfnod y refferendwm
- Amserlenni'r refferendwm ar gyfer dynodi ac adrodd

Dogfennau cysylltiedig:

- Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Gwariant ar gyfer Ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Proses ddynodi ar gyfer Refferendwm yr UE

Crynodeb

Dylid cynnal refferenda mewn ffordd sy'n hyrwyddo hyder y cyhoedd. Dylent fod yn gredadwy, yn dryloyw ac yn deg.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r amserlen a'r dyddiadau cau ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE.

4

Cyflwyniad

Mae refferendwm yn cael ei gynnal ar 23 Mehefin 2016 ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae gennym gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â rheoleiddio ymgyrchwyr. Y Prif Swyddog Cyfrif sy'n gyfrifol am sicrhau y cynhelir y refferendwm a'r bleidlais mewn ffordd briodol ac effeithiol.

Mae ein ffocws ar bleidleiswyr ac ar flaenoriaethu eu buddiannau. Mae hyn yn sail i bopeth a wnawn.

Mae ein hamcanion ar gyfer refferenda fel a ganlyn:

- dylent gael eu cynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- Cyflwyniad i refferendwm
- Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi dyddiadau a manylion penodol am y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE. Dylech eu darllen ochr yn ochr â'n canllawiau eraill, sy'n nodi'r rheolau y mae'n rhaid i chi eu dilyn yn ystod ymgyrch y refferendwm.

Gallwch eu gweld ar ein gwefan.

Cyfnod y refferendwm

Ceir rheolau ynghylch cadarnhau rhoddion, eu derbyn ac adrodd arnynt cyn y refferendwm. Mae cyfnod ymgyrchu ffurfiol a elwir yn 'gyfnod y refferendwm' pan fydd y terfynau gwario yn gymwys hefyd.

Mae cyfnod y refferendwm yn dechrau ar 15 Ebrill ac yn dod i ben ar 23 Mehefin 2016, sef diwrnod y refferendwm.

Rhaid i chi gofrestru â ni os bwriadwch wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod y cyfnod hwn.

Rhaid i chi gofrestru hyd yn oed os ydych eisoes wedi cofrestru â ni fel:

- plaid wleidyddol
- ymgyrchydd nad yw'n blaid
- ymgyrchydd mewn refferendwm a gynhaliwyd o'r blaen

Gallwch gofrestru fel ymgyrchydd drwy ddefnyddio CPE Ar-lein neu fel arall gallwch ddefnyddio ffurflen EUR1 Cais i gofrestru fel ymgyrchydd mewn refferendwm ar ein gwefan. Ar ôl i chi gofrestru, bydd yn rhaid i chi ddilyn rheolau ar:

- gadarnhau rhoddion a benthyciadau
- faint y gallwch ei wario yn ystod cyfnod y refferendwm
- adrodd cyn y bleidlais
- adrodd ar ôl y bleidlais

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE
- Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE

Pwysig

Os ydych yn ymgyrchu yn etholiadau Mai 2016 dylech ddarllen ein canllawiau ar effaith cyfnodau a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd.

- Refferendwm y UE ac etholiadau Mai 2016

6

Amserlenni'r refferendwm

Mae'r tablau canlynol yn dangos y dyddiadau a'r dyddiadau cau ar gyfer ymgyrchwyr yn refferendwm yr UE

Amserlen ar gyfer dynodi ymgyrchwyr arweiniol

Gall ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig wneud cais i ddod yn grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig i weithredu fel y grŵp ymgyrchu arweiniol ar ran y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw.

O dan ein rôl statudol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y grwpiau ymgyrchu arweiniol yn cynrychioli'r rhai sy'n ymgyrchu dros bob canlyniad yn ddigonol. Gallwn ddynodi grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer y ddau ganlyniad mewn refferendwm neu ar gyfer un canlyniad, neu gallwn benderfynu peidio â dynodi grŵp ar gyfer canlyniad os na fydd yn bodloni'r prawf statudol.

Darpariaethau cofrestru yn y Ddeddf yn dod i rym	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Diwrnod pleidleisio 23 Mehefin 2016
Gall ymgyrchwyr gofrestru â ni	Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i fod yn sefydliadau dynodedig	Bydd y Comisiwn yn gwneud penderfyniad dynodi	Gall sefydliadau dynodedig ddefnyddio eu buddiannau ymgyrchwyr arweiniol	
1 Chwefror	4 Mawrth - 31 Mawrth	1 Ebrill - 14 Ebrill	15 Ebrill 2016	

Adrodd cyn y refferendwm: adroddiadau ar roddion a benthyciadau cyn y bleidlais

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Yn y cyfnod cyn y refferendwm, rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ond gan gynnwys pleidiau llai) roi gwybod i ni am roddion a benthyciadau penodol. Gelwir hyn yn adrodd cyn y bleidlais.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno pedwar adroddiad cyn y bleidlais, gan nodi pa roddion a gafwyd a pha fenthyciadau a drefnwyd ganddynt ar neu ar ôl 1 Chwefror 2016 sy'n werth dros £7,500. Mae hyn yn cynnwys rhoddion a benthyciadau a gafwyd ar neu ar ôl 1 Chwefror ond cyn i'r ymgyrchydd gofrestru. Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig, a phob un sy'n bwriadu dod yn ymgyrchwyr cofrestredig, gofnodi pob rhodd dros £500 a gânt, a benthyciadau a drefnir ganddynt yn ystod y cyfnod hwn.

Amserlen ar gyfer adroddiadau cyn y bleidlais

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfnodau adrodd a'r dyddiadau cau y mae'n rhaid i'r adroddiadau cyn y bleidlais gael eu derbyn gennym.

Cyfnod adrodd	Dyddiad cau ar gyfer adroddiadau cyn y bleidlais
1 Chwefror - 21 Ebrill	28 Ebrill
22 Ebrill - 12 Mai	19 Mai
13 Mai - 9 Mehefin	16 Mehefin
10 Mehefin - 22 Mehefin	29 Mehefin

8

Adrodd ar ôl y refferendwm: adroddiadau ac anfonebau

Rhaid i bob ymgyrchydd cofrestredig, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, adrodd ar eu gwariant ymgyrchu, eu rhoddion a'u benthyciadau ar ôl y refferendwm.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- Gwariant ar gyfer Ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Mae'r dyddiad y mae'n rhaid i chi ein hysbysu yn dibynnu ar faint y gwnaethoch ei wario ar eich ymgyrch. Dangosir y dyddiadau cau isod.



Derbyn anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi gael eich holl anfonebau gan gyflenwyr erbyn 25 Gorffennaf 2016.

Pwysig

Os na chewch anfoneb o fewn 30 diwrnod, ni ddylech ei thalu heb gael gorchymyn llys i wneud hynny. Dylech hysbysu eich cyflenwyr o hyn.

Talu anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi dalu eich holl anfonebau gan gyflenwyr erbyn 22 Awst 2016.

Os na thalwch anfoneb o fewn 60 diwrnod, rhaid i chi gael gorchymyn llys i allu gwneud hynny.

Amserlen dyddiadau

Cam Gweithredu	Dyddiad	Nodiadau
Proses gofrestru yn dechrau	1 Chwefror	Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen yma:
Proses gwneud cais am ddynodiadau	4 Mawrth - 31 Mawrth	Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau yma a'r ffurflenni yma:
Gwneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau am ddynodiadau	1 Ebrill - 14 Ebrill	Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau yma.
Mae cyfnod y refferendwm yn dechrau ar	15 Ebrill	Bydd terfynau gwario yn gymwys o'r dyddiad hwn
Adroddiad cyn y bleidlais cyntaf yn ddisgwyliedig	28 Ebrill	Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Chwefror a 21 Ebrill Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen yma a'r canllawiau yma.
2il adroddiad cyn y bleidlais yn ddisgwyliedig	19 Mai	Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 22 Ebrill a 12 Mai Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen yma a'r canllawiau yma..
3ydd adroddiad cyn y bleidlais yn ddisgwyliedig	16 Mehefin	Mae'r aroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 13 Mai a 9 Mehefin Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen yma a'r canllawiau yma.
Dyddiad y refferendwm a diwedd cyfnod y refferendwm.	23 Mehefin	

4ydd adroddiad cyn y bleidlais yn ddisgwyliedig	29 Mehefin	Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 10 Mehefin a 22 Mehefin. Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen yma a'r canllawiau yma..

Cam Gweithredu	Dyddiad	Nodiadau
Dyddiad olaf i dderbyn anfonebau	25 Gorffennaf	Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau yma
Dyddiad olaf i dalu anfonebau	22 Awst	Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau yma
Cyflwyno ffurflen gwariant os yw eich ffurflen o dan £250,000	23 Medi	Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau yma a'r ffurflenni yma:
Cyflwyno ffurflen gwariant os yw eich ffurflen dros £250,000	23 Rhagfyr	Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau yma a'r ffurflenni yma:

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan yma.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
  gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk